**COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**

**A GYNHALIWYD AR 9FED HYDREF 2023**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Eifiona Davies

Y Cynghorydd Mark Thomas

Y Cynghorydd Rory Francis

Y Cynghorydd Troy MacLean

Y Cynghorydd Gareth Davies

Sioned Graham-Cameron (Clerc)

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Morwenna Pugh a Dafydd Dafis.

Adroddodd y Cadeirydd bod y Cynghorydd Glyn Daniels wedi ymddiswyddo fel cynghorydd tref. Mynegwyd tristwch am hynny, a diolchwyd yn fawr iddo am ei waith dros y blynyddoedd ar ran etholwyr ei ward ar y Cyngor Tref, a chynigiodd y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd y Cynghorydd Eifiona Davies bod y Clerc yn anfon llythyr o ddiolch iddo ar ran y Cyngor, a chytunodd pawb gyda hynny.

Roedd nifer o aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod ar gyfer eitem 6, Cyfranogiad y Cyhoedd.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Materion a ddylid eu hystyried fel rhai brys.**

Goleuadau Nadolig – cytunwyd gwahodd trydanwr y Cyngor Sir i gyfarfod y Cyngor i drafod trefniadau goleuadau Nadollig 2023.

**4. Cyfetholiad Cynghorwyr Newydd**

Cynigiodd y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd y Cynghorydd Eifiona Davies bod y ddau gynghorydd newydd yn cael eu cadarnhau fel aelodau o'r Cyngor Tref a chroesawu'r Cynghorydd Gareth Davies a Troy MacLean i'w cyfarfod cyntaf, a chytunodd pawb.

**5. Diweddariad gan yr Heddlu**

Nid oedd aelod o'r Heddlu yn bresennol.

**6. Cyfranogiad y Cyhoedd**

**i. Tir Carregfilltir**

DRAFT

Roedd awydd o hyd i gadw’r tir fel gardd wyllt, ar gael i’r cyhoedd. Dywedodd y Cynghorydd Eifiona Davies bod llanast ar y tir o hyd, gyda thipio slei bach wedi digwydd. Roedd wedi holi’r Cyngor Sir ynglŷn â chlirio’r llanast bythefnos ynghynt. Esboniodd y Cynghorydd Linda Ann Jones bod y mater yn nwylo Cyngor Gwynedd a’r Gofrestrfa Dir bellach a’r gobaith oedd y gellid cwblhau’r broses o gofrestru’r tir erbyn dechrau’r flwyddyn nesaf. Dywedodd hefyd y byddai’n ceisio trefnu gosod ffens wifren ar draws y fynedfa i geisio rhwystro rhagor o dipio slei bach ar y safle. Nododd aelodau’r cyhoedd a oedd yn bresennol fod bywyd gwyllt yn dychwelyd i’r safle bellach.

Cynigiodd y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd y Cynghorydd Tory Francis bod y Cyngor Tref yn ysgrifennu at y Cyngor Sir yn cefnogi’r camau i ddatblygu’r tir fel ased gymunedol a chytunodd pawb.

ii. Ceri Cunnington – cyflwyniad ar waith Cwmni Bro

Esboniodd Ceri Cunnington bod Cwmni Bro yn bodoli ers 2006, ac roedd yn gorff annibynnol a oedd yn rhedeg y rhaglen. Dywedodd ei bod yn bwysig denu grantiau ond ei bod yr un mor bwysig rhedeg prosiectau, yn enwedig Antur Stiniog. Roedd 15 menter gymunedol i gyd yn dod dan yr ambarel, yn cydweithio. Pwysleisiodd bod Bro Ffestiniog yn haeddu buddsoddiad, ac esboniodd yr hyn roedd y fenter wedi bod yn ei wneud, gan gynnwys Siop Eifion, Siop Effraim a Chaffi Bolton o ran datblygu busnes/gweithdai/llety, a lle cafwyd grant gan Lywodraeth Cymru. Benthyciad a oedd wedi ariannu pryniant Siop Eifion. Roedd y fenter ar hyn o bryd yn mapio er mwyn peidio â chystadlu, ac yn siarad gyda mudiadau eraill.

Awgrymwyd bod y Cyngor Tref yn gwahodd y mentrau i wneud cyflwyniadau a bod cyfathrebu yn bwysig, a gofynnodd y Cynghorydd Mark Thomas os gellid cael adroddiad misol gan y mentrau unigol. Cytunodd Ceri Cunnington gyda hynny, gydag un fenter yn cael ei gwahodd bob mis i esbonio i’r Cyngor Tref beth yr oedd yn ei wneud.

iii. Andrew Williams – Cais Cynllunio Hen Eglwys Llan Ffestiniog

Esboniodd Andrew Williams y cefndir i’r sefyllfa bresennol, gyda gŵr o’r new Nigel wedi prynu’r eglwys i’w gwarchod ar gyfer y gymuned. Y pwyslais oedd gweithio gyda’r gymuned o ran yr hyn a fyddai’n digwydd yno. Byddai cydweithio gyda’r Pengwern; cyfrifiaduron i blant a phobl ifanc i ddysgu; caffi; pobl hŷn eisiau caffi, a chacennau a phaned yn unig fyddai ar gael, gan gael y cynnyrch gan y Pengwern. Roedd yn fwriad hefyd prynu blodau gan Seren er mwyn eu cynnig i bobl eu prynu pan fyddent yn ymweld â beddau anwyliaid. Oriel yn adrodd hanes Llan. Dywedodd eu bod eisiau gweithio gyda’r Cyngor Tref, a’i fod yn gweithio’n agos gyda’r Neuadd yn Llan i’w helpu hwythau. Syniad arall oedd cynnal marchnad ar y sgwâr y tu allan.

Dywedodd rheolwr y Pengwern eu bod hwythau yn gefnogol a dywedodd y Cynghorydd Linda Ann Jones bod y Neuadd hefyd yn gefnogol iawn.

Nododd y Cynghorydd Rory Francis y byddai angen i dri chynghorydd ofyn am gael ail-drafod y mater.

Diolchwyd yn fawr i’r cyflwynwyr am eu cyfraniadau.

**7. Cofnodion Cyfarfod 11 Medi**

Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas bod angen cywiro’r cofnodion fel a ganlyn:

Eitem 6. iv – roedd wedi crybwyll lefel gyfreithiol EMF a lefel y rhain, ac eitem 14, System TCC swyddfa'r Clerc gan nodi mai penderfyniad y Cyngor Tref oedd bod y camera yn cael ei osod yn y swyddfa, ac nid y tu allan.

Yn amodol ar y newidiadau hyn, cynigiodd y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd y Cynghorydd Eifiona Davies bod y cofnodion yn cael eu derbyn  a chytunodd pawb.

**8. Panel Dehongli**

Dywedodd y Cynghorydd Eifiona Davies ei bod yn bwysig bod pethau yn y dref sy'n denu ymwelwyr ac adrodd hanes yr ardal, bod treftadaeth y dref yn bwysig. Cynigiodd y Cynghorydd Rrory Francis ac eiliodd y Cynghorydd Linda Ann Jones bod y Cyngor Tref yn mabwysiadu'r Panel a chytunodd pawb, gan nodi y byddai angen ei ychwanegu i'r dogfennau tendr glanhau.

**9. Cais am Gymorth Ariannol**

Nid oedd y ffurflen gais wedi ei derbyn gan Glwb Nofion PBP, ac felly ni ellid trafod y cais.

**10. Datblygiadau yn yr ardal**

Adroddwyd bod Llais wedi disodli'r CIC fel corff, a bod y Cynghorydd Linda Ann Jones yn gynrychiolydd arno. Ar bwnc iechyd, crybwyllwyd sefyllfa'r ganolfan iechyd yn y Blaenau a chynigiodd y Cynghorydd Linda Ann Jones ac eiliodd y Cynghorydd Mark Thomas bod y Cyngor Tref yn anfon llythyr at reolwr y practis i holi faint o feddygon a oedd yno yn llawn amser a chytunodd pawb.

**11. Taliadau a Derbyniadau**

Cynigiodd y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd y Cynghorydd Linda Ann Jones bod y rhestr taliadau yn cael ei derbyn ac awdurdodi'r Clerc i wneud y taliadau a chytunodd pawb.

**12. Cais Cynllunio**

**Codi estyniad i'r cwt diogelwch a chodi adeilad amgau pyst, Gorsaf Bŵer Ffestiniog, Tanygrisiau**

Cynigiodd y Cynghorydd Rory Francis ac eiliodd y Cynghorydd Eifiona Davies a chytunodd pawb nad oedd y Cyngor Tref yn cyflwyno unrhyw wrthwynebiad.

**13. System Teledu Cylch Cyfyng**

Derbyniwyd adroddiad ar y system TCC a dderbyniwyd gan Kevin Jones, a gofynnwyd i'r Clerc holi Kevin ynglŷn â'r pris mewn perthynas â chamera Siop y Gloddfa.

**14. Materion er gwybodaeth**

Dywedodd y Cynghorydd Mark Thomas bod trigolion lleol yn holi ynglŷn â'r posibilrwydd o gael maes parcio ger y Berllan Gymunedol a chynigiodd bod y mater yn cael ei roi ar agenda'r Pwyllgor Mwynderau. Eiliodd y Cynghorydd Rory Francis a chytunodd pawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.56pm

DRAFT